Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru | Royal Welsh Agricultural Society

# Ffurflen Gais

## Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
## Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig 2024-2025

Diolch ichi am ddangos diddordeb mewn cymryd rhan yn Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig CAFC. Mae hon yn rhaglen wedi'i hariannu'n llawn diolch i gymynrodd hael a adawyd gan y diweddar Mr N Griffiths ac i Bwyllgor Ymgynghorol Sirol Morgannwg, a oedd yn sir nawdd CAFC yn 2023, sydd wedi darparu arian cyfatebol.

Mae cymryd rhan yn y Rhaglen Arweinyddiaeth yn gyfle unwaith mewn oes. Fel grŵp o hyd at 12 o gynrychiolwyr, byddwch yn cael cyfle i ddod i adnabod eich hun ac eraill yn well, i wneud cysylltiadau â ffigyrau allweddol yn y diwydiant, i ddysgu sgiliau newydd ynglŷn â chyfathrebu a thrin y cyfryngau, tra byddwch yn datblygu'ch arddull arwain er mwyn gwella'ch gyrfa a'ch/neu'ch busnes.

Eleni, bydd y cynrychiolwyr yn cael cyfle i fynychu un o'r cynadleddau amaethyddol mwyaf ei bri yn y byd. Ym mis Mehefin eleni, bydd **Cynhadledd Amaethyddol y Gymanwlad** yn cael ei chynnal ochr yn ochr â Sioe Frenhinol yr Ucheldir yn yr Alban. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael y cyfle i fynychu'r gynhadledd a chyfarfod arweinwyr datblygol o gwr i gwr gwledydd y Gymanwlad. Nid yw cyfleoedd fel hyn yn dod heibio'n rhy aml ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Cyn ichi gwblhau eich ffurflen gais ar gyfer Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig CAFC, mae yna ychydig bwyntiau allweddol y mae arnom eisiau eu pwysleisio.

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus fod yn **hollol ymrwymedig** i'r rhaglen ar ôl mynychu'r Diwrnod Dewis a rhaid iddynt fynychu pob sesiwn, a chyrraedd yn brydlon. Gallai peidio ag ymrwymo i'r rhaglen arwain at ddiarddeliad.

Bydd y **Diwrnod Dewis yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher, 10fed Ebrill 2024,** ble bydd rhaid i'r ymgeiswyr fynychu sesiwn ragarweiniol y Rhaglen ar Faes Sioe Frenhinol Cymru.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gwahodd i Seremoni Wobrwyo Sioe Frenhinol Cymru ar ddydd Llun 22ain Gorffennaf, ble bydd y Gymdeithas yn cyhoeddi'r ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig CAFC 2024-2025.

Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

Royal Welsh Agricultural Society

Mae’r dyddiadau ar gyfer y Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig wedi’u cytuno fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **Diwrnod Dewis** | **10fed Ebrill 2024** | **Maes Sioe Frenhinol Cymru** |
| **Sesiwn 1** | **23ain Mai 2024** | **Maes Sioe Frenhinol Cymru** |
| **Sesiwn 2** | **22 – 27 Mehefin 2024** | **Yr Alban** |
| **Sesiwn 3** | **23 – 25 Hydref 2024** | **Caerdydd/Llundain** |

Ar ôl cwblhau’r rhaglen yn llwyddiannus, bydd yr ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i Gyflwyniad y Seremoni Wobrwyo yn Sioe Frenhinol Cymru 2025, i dderbyn eu tystysgrif. Dim ond y rheini sydd wedi cymryd rhan lawn a gweithgar yn y rhaglen gyfan fydd yn derbyn y dystysgrif.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw

**12 canol dydd ar ddydd Mawrth, 26ain Mawrth 2024.**

Ar ôl eu cwblhau dylid e-bostio ceisiadau at: alison.harvey@ruraladvisor.co.uk

Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru

Royal Welsh Agricultural Society

| **Adran 1 – Manylion cyswllt yr ymgeisydd:** | | | |
|---|---|---|---|
| Enw: | | | |
| Cyfeiriad: | | | |
| Cod Post: | | | |
| Rhif Ffôn: | | Rhif Symudol: | |
| E-bost: | | Dyddiad Geni: | |

| **Adran 2 – Ble glywsoch chi am Raglen Arweinyddiaeth CAFC?** |
|---|
| |

| **Adran 3 – Addysg a Chymwysterau** |
|---|
| Rhowch fanylion y cymwysterau a enillwyd: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| **Adran 4 – Manylion eich cyflogaeth bresennol** | |
|---|---|
| Swydd bresennol: | Cyflogwr: |

| **Adran 5 – Bywgraffiad** |
| --- |
| *Rhowch fywgraffiad 100–150 gair inni amdanoch eich hun, eich cefndir a'ch diddordebau:* |

| **Adran 6 – Beth ydych yn eu hystyried yw'r heriau a'r cyfleoedd i'r diwydiant Amaethyddol yng Nghymru yn y 10 mlynedd nesaf?** |
| --- |
| *Mewn dim mwy na 250 o eiriau* |

| **Adran 7 – Amlinellwch pam eich bod wedi gwneud cais am y rhaglen, beth sydd arnoch eisiau ei gyflawni drwyddi a beth yw eich uchelgais arwain am y pum mlynedd nesaf.** |
| --- |
| *Mewn dim mwy na 250 o eiriau* |

Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
Royal Welsh Agricultural Society

| **Adran 8 – Datganiad** | | | |
|---|---|---|---|
| Rwyf i ………………………………. yn dymuno gwneud cais am le ar Raglen Arweinyddiaeth Wledig Sioe Frenhinol Cymru.<br><br>Mae'r holl wybodaeth a gyflenwir yn y cais hwn yn wir a chywir.<br><br>Wrth gyflwyno'r cais hwn, rwyf yn cytuno i fy enw fynd ymlaen i Banel y Beirniaid i'w ystyried.<br><br>Os wyf yn llwyddiannus rwyf yn cytuno i gyfranogi'n llawn ac i fynychu pob sesiwn ar y dyddiadau a nodir yn y rhaglen, mewn modd prydlon a phroffesiynol.<br><br>Rwyf yn cytuno i gyfranogi mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo/cyhoeddusrwydd sy'n codi o'r rhaglen. | | | |
| Arwyddwyd: | | Dyddiad: | |
| **Cewch deipio eich enw uchod os ydych yn cwblhau cais electronig* | | | |
| | | | |